OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2023 No. 1288

## Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Sancsiynau Sifil) (Cymru) 2023

## RHAN 1

### Rhagarweiniad

**Enwi, cychwyn a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Sancsiynau Sifil) (Cymru) 2023.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Rhagfyr 2023.

(3) Ac eithrio pan fo'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth i'r gwrthwyneb, mae i dermau Cymraeg yn y Rheoliadau hyn sy'n cyfateb i dermau Saesneg a ddiffinnir yn Rhan 3 o Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau 2008 yr un ystyr â'r termau hynny yn y Rheoliadau hyn.

(4) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "awdurdod lleol" ("*local authority*") yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol ar gyfer ardal yng Nghymru;

ystyr "Deddf 2023" ("the *2023 Act*" ) yw Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023;

ystyr "person" ("*person*") yw'r disgrifiadau o berson a nodir yn adran 5(2) (y drosedd o gyflenwi cynhyrchion plastig untro gwaharddedig) o Ddeddf 2023 ac eithrio pan fo'r cyd-destun yn mynnu fel arall.

**Y Rheoleiddiwr**

**2.** Awdurdod lleol yw'r rheoleiddiwr at ddibenion y Rheoliadau hyn.